



Gofal Cymdeithasol **Cymru**  
Social Care **Wales**

# Trosolwg

First published: 2 May 2017

Last updated: 25 September 2022

This document was downloaded from socialcare.wales and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/hyb-gwybodaeth-a-dysgu/rheoleiddio-ac-arolygu/trosolwg> for the latest version.

# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Derbyniodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol a daeth yn gyfraith ar 18 Ionawr 2016.

[Darllenwch y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\).](#)

Mae [fersiwn hawdd ei deall o'r Ddeddf](#) ar gael i'w lawrlwytho ac mae [crynodedb o'r Ddeddf ar gyfer pobl ifanc](#) ar gael hefyd.

Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar lwyddiant rheoleiddio yng Nghymru ac yn sicrhau bod ansawdd gwasanaethau a gwella yn rhan annatod o'r broses reoleiddio. Mae'n cryfhau trefniadau amddiffyn i'r rhai sydd eu hangen, mae'n sefydlu system reoleiddio sy'n cyd-fynd â Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac yn creu system reoleiddio sy'n canolbwyntio ar bobl sydd angen gofal a chymorth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol.

Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn:

- diwygio'r broses o reoleiddio gofal cymdeithasol yng Nghymru drwy sicrhau bod pobl sy'n derbyn gofal a chymorth yn ganolog i'r broses
- diwygio'r broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol
- ail-enwi Cyngor Gofal Cymru ac Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn Gofal Cymdeithasol Cymru, gan roi pwerau newydd iddynt o fis Ebrill 2017
- diwygio'r broses o arolygu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol
- darparu ymateb cadarn i'r gwersi a ddysgwyd o fethiannau blaenorol yn y system.

## Egwyddorion

Mae pum egwyddor yn sail i'r system rheoleiddio ac arolygu newydd:

- adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- sicrhau bod pobl yn ganolog i'w gofal a'u cymorth
- datblygu dull Cymreig cydlynol a chyson
- mynd i'r afael â methiant darparwyr
- ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i fodolau gwasanaeth newydd ac unrhyw bryderon am ansawdd gofal a chymorth.

## Troi'r Bil yn Ddeddf

Dilynwch hynt y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), o'i chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 23 Chwefror 2015 i bryd daeth hi'n Ddeddf ar ôl derbyn Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Yma, cewch weld y [Memorandwm Eglurhad, sy'n rhoi esboniad bras o'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys y rhannau gwahanol i gyd.](#)

## Gorchmynion Dechreuad

Y Gorchmyn Dechreuad diweddaraf o ran y Ddeddf yw'r [Gorchmyn Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016 \(Cychwyn Rhif 6, Arbedion a Darpariaethau Trosiannol\) 2019.](#)

O 2 Ebrill 2018 mae hyn i rym darpariaethau hanfodol yn Rhan 1 o'r Ddeddf parthed cofrestru a rheoleiddio cartrefi gofal; llety diogel; canolfanau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau cymorth yn y cartref.

Mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau i ddarparwyr ynglŷn â chofrestru gwasanaethau o dan y Ddeddf.](#)

Bydd ceisiadau i gofrestru'n agor o 1 Chwefror 2018.

Mae'r Gorchymyn Rhif 5 hefyd yn cynnwys manylion am bedwar gorchymyn dechreuad blaenorol:

- daeth Rhif 1 a adrannau 67, 68, 73(1) a (2) a 75 yn rhannol i rym ar 11 Gorffennaf 2016
- daeth Rhif 2 a adrannau 185 a atodlen 3 yn rhannol i rym ar 6 Ebrill 2016.
- daeth Rhif 3, gydag eithriadau cyfyngedig, â Rhannau 2 - 10 o'r Ddeddf i rym 3 Ebrill 2017. Daeth hyn â system newydd o reoleiddio'r gweithlu i rym, fel sy'n ofynnol yn ôl y Ddeddf. Daeth hwn â chyfnod 1 o weithredu'r Ddeddf i ben.
- daeth Rhif 4 ag adrannau 56(1) a (2) o'r Ddeddf i rym o 4 Medi 2017. Ychwanegodd hyn adran 144A i mewn i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n delio gydag adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol ar eu swyddogaethau gofal cymdeithasol.

Mae [nodyn cyfarwyddyd](#) ar gael ar yr arbedion a darpariaethau trosiannol o fewn gorchymyn 3.